CYNLLUN GWAITH GRŴP CYFRANOGIAD Y STRATEGAETH: DATBLYGU'R GWEITHLU GWAITH IEUENCTID
IONAWR 2020 – RHAGFYR 2020

Cefndir y grŵp a thasgau allweddol

Mae'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro wedi gweithio gyda phobl ifanc a'r sector i ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth Gwaith Ieuenctid sy'n nodi gweledigaeth a rennir ar gyfer gwaith ieuenctid gyda phum maes ategol. Mae gan Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: Datblygu'r Gweithlu, sydd wedi'i hwyluso gan Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru, gyfrifoldeb dros weithio tuag at y weledigaeth a'r ymrwymiadau a nodir yn Nod 3 y strategaeth, sef: mae gwirfoddolwyr a gweithwyr proffesiynol cyflogedig ym maes gwaith ieuenctid yn cael eu cefnogi drwy gydol eu gyrfaoedd i wella eu hymarfer. Ceir ymrwymiadau i wneud y canlynol:

• Datblygu, cyhoeddi a gweithredu Cynllun Datblygu'r Gweithlu ar gyfer sector amrywiol ond unedig ar bob haen (gan gynnwys, er enghraifft, person ifanc, prentis, gwirfoddolwr, ymddiriedolwr, gweithiwr ieuenctid cyflogedig, rheolwr gwasanaeth)
• Deall ac ymateb i anghenion hyfforddiant presennol y Gymraeg
• Sicrhau bod hyfforddiant gweithwyr ieuenctid cymwys proffesiynol yn mynd i'r afael â'r hyn y mae pobl ifanc ei angen heddiw ac yn y cyd-destun y gwneir gwaith ieuenctid
• Adolygu a diweddaru'r Llwybr Cydlynol ar gyfer Cymwysterau Gwaith Ieuenctid Cydnabyddedig i wella datblygiad
• Cychwyn datblygu rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer uwch-arweinwyr yn y sector gwaith ieuenctid, ac ymgysylltu â'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol i ystyried a yw'n gymwys i gael ardystiad
• Gwella'r wybodaeth sydd ar gael i ni am y gweithlu (gwirfoddol ac a gyflogir gan awdurdodau lleol) drwy gryfhau'r gwaith o archwilio darpariaeth a sgiliau
• Ystyried rôl cofrestru yn y dyfodol o ran proffesiynoli a chefnogi staff gwaith ieuenctid gwirfoddol a chyflogedig proffesiynol yng Nghymru
• Cefnogi mwy o rwydweithio, a nodi a rhannu arfer gorau drwy Farc Ansawdd Gwaith Ieuenctid sydd wedi'i gryfhau, cynadleddau gwaith ieuenctid, digwyddiadau, a'r Gwobrau Rhagoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid

Aelodau'r grŵp

Jo Sims – Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent, Aelod Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro (Cadeirydd)
Rachel Burton - Dysgu Oedolion Cymru
Emma Chivers – Prifysgol De Cymru
Steve Drowley – Cadeirydd Safonau Hyfforddiant Addysg Cymru
Sion Edwards – Wrexham Venture
Catrin James – Urdd Gobaith Cymru, Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg
Gethin Jones – Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion
Josh Klein – Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy
Hayden Llewellyn – Cyngor y Gweithlu Addysg
Paul O'Neil – Gwaith Ieuenctid Caerffili
Grant Poiner – Clybiau Bechgyn a Merched Cymru
Gill Price – Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Liz Rose – Cynghorydd Safonau Hyfforddiant Addysg Cymru
Carlie Torlop – YMCA Abertawe
Joel Hodson – Llywodraeth Cymru
Donna Lemin – Llywodraeth Cymru

Rhaglen ddrafft o weithgareddau

Tasgau allweddol	Meysydd ffocws	Amcanion rydym yn bwriadu gweithio tuag atynt / yn eu hargymell i'w cynnwys mewn Cynllun Datblygu'r Gweithlu yn y dyfodol	Pwy?	Dyddiad dechrau'r gweithgaredd
Mapio ac ymchwilio i'r gweithlu	• Diffinio ôl troed y gweithlu gwaith ieuenctid • Mapio'r gweithlu gwaith ieuenctid	➢ Cwrdd â Chyngor y Gweithlu Addysg i ystyried ei rôl wirioneddol a phosib ➢ Cytuno ar ddiffiniad gweithiol o'r gweithlu gwaith ieuenctid – gwirfoddol, a gynhelir ac arall ➢ Comisiynu ac ymgymryd â rôl fapio ➢ Ymgymryd ag arolwg cenedlaethol o weithwyr ieuenctid cofrestredig a gweithwyr cymorth ieuenctid ➢ Ymgysylltu ag ymgynghorwyr ymchwil y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro	Cyngor y Gweithlu Addysg ac Ymgynghoryd d Grŵp Cyfranogiad Datblygu'r Gweithlu Grŵp Cyfranogiad Datblygu'r Gweithlu, Cyngor y Gweithlu Addysg ac ymgynghorwyr Grŵp Cyfranogiad Datblygu'r Gweithlu	Ionawr 2020 Ebrill 2020 Yn parhau
Datblygu'r cynnig dysgu proffesiynol	• Adolygu cydlyniant ac addasrwydd y gyfres o gymwysterau a datblygiad mewn gwaith ieuenctid a chymunedol	➢ Cyrsiau a chymwysterau i weithwyr ieuenctid a chymunedol proffesiynol (lefelau 4–7) ➢ Cyrsiau a chymwysterau i weithwyr ieuenctid a chymunedol proffesiynol (lefelau 2–3) a'u cyfwerth yn y sector gwirfoddol ➢ Rhaglenni cyflwyniadol Lefel 1 a'u cyfwerth yn y sector gwirfoddol	Sefydliadau addysg uwch, Addysg Oedolion Cymru, Safonau Hyfforddiant Addysg Cymru, Grŵp Prif Weithwyr Ieuenctid, Cyngor Cymreig Gwasanaetha u Ieuenctid Cymru	Chwefror – Mehefin 2020 Chwefror – Mehefin 2020

	• Mynediad i hyfforddiant a chymwysterau a'u hariannu • Datblygiad proffesiynol parhaus • Rhaglen o arweinyddiaeth ar gyfer uwch-arweinwyr yn y sector gwaith ieuenctid (yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol)	➢ Prentisiaethau gwaith ieuenctid ➢ Lled ddaearyddol y cyfleoedd hyfforddi ledled Cymru ➢ Argaeledd hyfforddiant a chyrsiau, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg, ar gyfer staff gwirfoddol a staff proffesiynol cyflogedig ➢ Hygyrchedd ac addasrwydd lleoliadau a darparwyr ➢ Ariannu dysgu proffesiynol ar gyfer gweithwyr ieuenctid ➢ Ystyried prosesau ar gyfer penderfynu, cyfathrebu a diwallu anghenion gweithwyr ieuenctid / gweithwyr cymorth ieuenctid / gwirfoddolwyr, gan gynnwys: ➢ Prosesau cynefino a chefnogi ar gyfer gweithwyr ieuenctid newydd gymhwyso a phecyn cefnogi datblygiad gyrfa gynnar ➢ Mynediad rheolaidd i oruchwyliaeth, mentora, adolygu swydd ac arfarnu ➢ System a rhaglen flynyddol o ddysgu a datblygiad proffesiynol sy'n briodol i anghenion gweithwyr cyflogedig/gwirfoddol ➢ Cwrdd â swyddogion yr Academi Genedlaethol ar	Aelodau ac ymgynghorwyr Grŵp Cyfranogiad Datblygu'r Gweithlu a Llywodraeth Cymru Aelodau Grŵp Cyfranogiad Datblygu'r Gweithlu Cyngor y Gweithlu Addysg, Safonau Hyfforddiant Addysg Cymru a Llywodraeth Cymru Cyflogwyr – awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol Safonau Hyfforddiant Addysg	Mehefin 2020 Yn parhau Mawrth 2020 ac yn parhau

		gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ➢ Ymgysylltu â'r Grŵp Prif Weithwyr Ieuenctid, Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Cymru, sefydliadau addysg uwch ac Addysg Oedolion Cymru ➢ Archwilio rhaglen arweinyddiaeth bwrpasol i weithwyr ieuenctid, i gael ardystiad gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, a/neu ehangu ar y rhaglen arweinyddiaeth addysgol gyffredinol	Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Safonau Hyfforddiant Addysg Cymru ac ymgynghorwyr	
Recriwtio a chadw	▪ Sicrhau ansawdd gwaith ieuenctid yng Nghymru	➢ Cefnogi ymgorffori'r Marc Ansawdd Gwaith Ieuenctid ledled Cymru, gan gynnwys darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff fel aseswyr / aseswyr arweiniol ar gyfer y marc ansawdd ➢ Ystyried canfyddiadau arolygiadau Estyn, yn benodol arolygiad 2020 o hyfforddiant gwaith ieuenctid ar lefelau 2–3 a 4–6 ➢ Archwilio a yw hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ieuenctid a gweithwyr gwasanaethau ieuenctid yn mynd i'r afael â'r hyn y mae pobl ifanc ei angen yn yr oes sydd ohoni ➢ Cyfrannu at sicrhau bod cyfleoedd i waith ieuenctid gael ei gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg	Yr holl sefydliadau yng Ngrŵp Cyfranogiad Datblygu'r Gweithlu Holl aelodau a sefydliadau Grŵp Cyfranogiad Datblygu'r Gweithlu Aelodau Grŵp Cyfranogiad Datblygu'r Gweithlu Cyngor y Gweithlu Addysg, Safonau Hyfforddiant	Yn parhau Ebrill – Hydref 2020 Yn parhau Cyfredol

	▪ Gwella prosesau recriwtio a chadw ▪ Gweithio tuag at ddatblygu Cynllun Datblygu'r Gweithlu ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer y gweithlu Cymraeg a dwyieithog	➢ Gweithio tuag at gofrestru'r gweithlu gwaith ieuenctid ehangach, gan gynnwys myfyrwyr, gwirfoddolwyr a gweithwyr ieuenctid cymwys mewn lleoliadau gwaith ieuenctid nad ydynt yn draddodiadol ➢ Argymell darparu hyfforddiant mewn prosesau recriwtio i staff ➢ Cynnwys pobl ifanc mewn prosesau recriwtio ➢ Cyfleu cyfleoedd swyddi gwaith ieuenctid yn eang yng Nghymru, gan gynnwys gwneud defnydd o brosesau Cyngor y Gweithlu Addysg ➢ Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a'i ymgynghorwyr ymchwil parthed cynnwys argymhellion ar gyfer Cynllun Datblygu'r Gweithlu Gwaith Ieuenctid yn adroddiad y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro i Lywodraeth Cymru ar fodel cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru ➢ Trafod priodoldeb a hyfywedd gyda'r gweithlu ehangach ➢ Cynnwys pobl ifanc mewn grŵp/grwpiau gwaith i ddatblygu'r cynllun ➢ Ystyried camau gweithredu sy'n benodol i'r gweithlu	Addysg Cymru Cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, Cyngor y Gweithlu Addysg Grŵp Cyfranogiad Datblygu'r Gweithlu Grŵp Cyfranogiad Datblygu'r Gweithlu a'i olynydd gyda grŵp gorchwyl a gorffen	Yn parhau Mehefin 2020 Wrth ddatblygu

		dwyieithog/Cymraeg		
Hyrwyddo gwaith ieuenctid fel proffesiwn	• Marchnata a chyfathrebu gwaith ieuenctid • Datblygu prosesau a deunyddiau hyrwyddol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru	➢ Gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r sector gwaith ieuenctid ➢ Cefnogi rhwydweithio a nodi a rhannu arfer da drwy gynadleddau a digwyddiadau gwaith ieuenctid a'r Gwobrau Rhagoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid ➢ Ymgysylltu â Chyngor y Gweithlu Addysg parthed ei waith ar gyfer Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo addysgu fel gyrfa a phroffesiwn, er mwyn ehangu ei gwmpas ac i gynnwys gwaith ieuenctid fel proffesiwn ➢ Archwilio deunyddiau hyrwyddo sy'n benodol i waith ieuenctid yng Nghymru ➢ Cynnig cynnwys adnoddau gwaith ieuenctid ar Hwb a mynediad i Hwb i weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid cofrestredig	Grŵp Cyfranogiad Datblygu'r Gweithlu ar y cyd â'r Gweinidog a grŵp trawsbleidiol Grŵp Cyfranogiad Datblygu'r Gweithlu a Chyngor y Gweithlu Addysg gyda'r Gweinidog a grŵp trawsbleidiol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg a Llywodraeth Cymru	Yn parhau Cyfredol Yn parhau Chwefror 2020